**Rhif:** WG44232

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Cynigion i ychwanegu at y categorïau o bobl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 24 Mai 2022

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Nod yr ymgynghoriad hwn yw disgrifio rhai o anghysondebau'r gofynion cofrestru presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda'n pobl ifanc ac mae'n eich gwahodd i fynegi eich barn ar sut y gallwn fynd i'r afael â nhw.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod erbyn **24 Mai 2022** fan bellaf.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu drwy lawrlwytho copi o'r holiadur a'i anfon atom drwy e-bost neu drwy'r post.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cyngor y Gweithlu Addysg
Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003
Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003
Deddf Addysg (Cymru) 2014
Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Llywodraethu a Deddfwriaeth
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: YmgynghoriadCGA.WG44232@llyw.cymru

This document is also available in English: https://gov.wales/new-registration-categories-education-workforce-council

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu drefnu ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i gynnal y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth ichi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu dileu cyn cyhoeddi.
Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, bydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


Crynodeb o'r prif faterion 2
Sut mae'r trefniadau cofrestru'n gweithio ar hyn o bryd? 2
Beth rydym am ei newid? 3
Pam rydym am i rai aelodau o staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor 4
Pam rydym am newid rhai o'r gofynion i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â'r Cyngor 7
Pam rydym am newid y gofynion ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes addysg ôl-16 i gofrestru â'r Cyngor 10
Gwirfoddolwyr 13
Y materion eraill y mae angen inni eu hystyried 14
Beth fydd yn wahanol os caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith? 14
Rhannwch eich barn â ni 15

## Crynodeb o'r prif faterion

1. Mae'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg a gwaith ieuenctid yn chwarae rhan greiddiol yn y broses o helpu dysgwyr i wireddu eu potensial fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atgyfnerthu proffesiynoldeb y gweithlu hollbwysig hwn mewn ffordd gadarnhaol. Nod yr ymgynghoriad hwn yw disgrifio rhai o anghysondebau'r gofynion rheoleiddio presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda'n pobl ifanc ac mae'n eich gwahodd i fynegi eich barn ar sut y gallwn fynd i'r afael â nhw.

2. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cynnig y dylid mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn drwy reoliadau newydd. Gall eich barn ar y newidiadau hyn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o'r mesurau diogelu ychwanegol a ddaw yn sgil trefniadau rheoleiddio proffesiynol. Yn ogystal, os caiff ein cynigion eu rhoi ar waith, bydd ein staff dysgu ac addysgu yn gydradd, ni waeth ble y maent yn gweithio.

3. Ein bwriad yw cyflwyno'r rheoliadau newydd hyn yn ystod gwanwyn 2023, gan gyflwyno'r categorïau cofrestru newydd fesul cam erbyn mis Medi 2023. Mae'r cynigion hyn yn cefnogi'r gwaith i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru. Nod yr adolygiad yw nodi'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'r rheoliadau perthnasol ar gyfer ysgolion annibynnol er mwyn adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru. Bydd y newidiadau'n sicrhau eu bod yn diogelu ac yn amddiffyn lles dysgwyr mewn ysgolion annibynnol. Rydym yn bwriadu rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn 2023.

4. Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn eich galluogi i roi eich barn a'ch safbwyntiau. Mae croeso ichi wneud sylwadau ar bob un o'n cynigion neu rai ohonynt.

## Sut mae'r trefniadau cofrestru'n gweithio ar hyn o bryd?

5. Mae cofrestriad yn rhoi trwydded i weithio mewn proffesiwn penodol. Mae'r amrywiaeth o broffesiynau rheoleiddiedig yn y DU yn helaeth ac yn tyfu. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r proffesiwn cyfreithiol, y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfrifyddiaeth, peirianneg a phensaernïaeth.

6. Mae'r trefniadau cofrestru'n golygu y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod y bobl sy'n gweithio mewn proffesiwn penodol yn meddu ar gymwysterau addas, eu bod yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyson, a bod eu hymddygiad a'u cymhwysedd o safon briodol. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn proffesiwn yn dangos ymrwymiad i gynnal a chodi safonau er budd y cyhoedd.

7. Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) sy'n rheoleiddio safonau proffesiynol yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bobl sy'n gweithio yn y categorïau canlynol gofrestru:

- Athrawon mewn ysgolion a gynhelir
- Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gynhelir
- Athrawon addysg bellach
- Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach
- Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
- Gweithwyr ieuenctid cymwysedig
- Gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

8. Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor tua 80,000 o gofrestreion.

9. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal ymchwiliad os honnir bod person cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymwysedd proffesiynol difrifol, neu os caiff ei euogfarnu o drosedd berthnasol. Gall ymchwiliad arwain at orchymyn disgyblu a all, yn yr achosion mwyaf difrifol, arwain at ddileu enw'r person o'r gofrestr.

10. Y cyflogwr neu'r asiantaeth, yn ogystal â'r ymarferwyr eu hunain, sy'n gyfrifol am sicrhau mai dim ond ymarferwyr cofrestredig a gyflogir i wneud y gwaith sy'n benodol i'w categori cofrestru.

## Beth rydym am ei newid?

11. Mae bylchau yn y gofynion cofrestru presennol sy'n golygu bod lefel y trefniadau rheoleiddio proffesiynol yn amrywio ar draws y gweithlu addysg, hyd yn oed pan fo unigolion yn cyflawni'r un rolau neu rolau tebyg iawn. Er enghraifft, mae'n rhaid i athro sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir gofrestru â'r Cyngor, ond nid oes rhaid i athro sy'n gwneud yn union yr un gwaith i bob pwrpas mewn ysgol annibynnol wneud hynny. Rydym am ychwanegu rhai aelodau o staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol at y rhestr o bobl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor. Yn ogystal, hoffem ddiweddaru categorïau'r gweithwyr ieuenctid a'r gweithwyr cymorth ieuenctid y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor a'r rhai yn y sector addysg ôl-16.

12. Hoffem ddeall eich barn ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i aelodau eraill o staff, heblaw am y rhai a nodir, gofrestru. Er enghraifft, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn seiliedig ar weithgareddau, fel dringo creigiau.

13. Wrth wneud y cynigion arfaethedig hyn, nid oes unrhyw fwriad i gyfyngu ar y rhyddid i drefnu a darparu addysg. Wrth ychwanegu'r categorïau hyn at y gofynion cofrestru, ein nod yw:

- Atgyfnerthu'r mesurau diogelu sydd ar waith i amddiffyn dysgwyr a staff
- Rhoi cydraddoldeb i'r rhai sy'n gweithio mewn rolau tebyg
- Sicrhau lefel o broffesiynoldeb ym mhob rhan o'r sector addysg
- Pennu ymddygiadau disgwyliedig ar gyfer y sectorau
- Sicrhau y gall staff ym mhob rhan o'r sector addysg fanteisio ar amrywiaeth o adnoddau datblygu a hyfforddiant a ddarperir drwy'r Cyngor
- Rhoi llwybr i unigolion neu sefydliadau godi pryderon a sicrhau yr ymchwilir i'r pryderon hynny'n annibynnol.

## Pam rydym am i rai aelodau o staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor

14. Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru â Llywodraeth Cymru. Fel un o amodau cofrestru ac er mwyn cadw eu cofrestriad, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys y gofynion a nodir yn Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ('y Safonau'). Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu ym maes addysg, yn gymwys i ysgolion annibynnol hefyd. Caiff ysgolion annibynnol eu harolygu gan Estyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Caiff ysgolion arbennig annibynnol eu harolygu bob blwyddyn. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arolygu ysgolion preswyl annibynnol yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd ac ysgolion arbennig preswyl annibynnol yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl.

15. Os na fydd ysgol yn cyrraedd un neu fwy o'r Safonau ac os ystyrir bod risg o niwed difrifol i les y dysgwyr, caiff Gweinidogion Cymru orchymyn bod ysgol yn cael ei dileu o'r gofrestr o ysgolion annibynnol. Mae gan yr ysgol 28 diwrnod i apelio yn erbyn hyn.

16. Gall arolygiad nodi nad yw ysgol wedi cyrraedd un neu fwy o'r Safonau ond nad ystyrir bod risg o niwed difrifol i les y dysgwyr. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n ofynnol i'r ysgol gyflwyno cynllun gweithredu i Weinidogion Cymru. Bydd y cynllun hwn yn dangos sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i gymryd camau pellach os na fydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r camau gofynnol. Gallai hyn gynnwys cau rhan o'r ysgol neu ei hatal rhag derbyn dysgwyr newydd. Yn y pen draw, gallai ysgol gael ei dileu o'r gofrestr am beidio â chyrraedd un neu fwy o'r Safonau.

17. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i orchymyn i ysgol annibynnol ddiswyddo aelod o staff neu ei dynnu o'i waith. Dim ond perchennog, Bwrdd Ymddiriedolwyr neu Gyngor Rheoli ysgol annibynnol a all wneud hyn.

18. Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg y pwerau i ymchwilio i honiadau bod person cofrestredig yn euog o gamymddwyn proffesiynol neu anghymwysedd proffesiynol difrifol neu ei fod wedi cael ei euogfarnu o drosedd berthnasol. Er mwyn sicrhau rhywfaint o gysondeb â'r gofyniad i rai aelodau o staff mewn ysgolion a gynhelir gofrestru â'r Cyngor, cynigiwn y dylai fod yn ofynnol i rai aelodau o staff mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor.

19. Mae'r Comisiynydd Plant wedi argymell y dylid ehangu'r trefniadau cofrestru i gynnwys staff mewn ysgolion annibynnol. Yn 2020 cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad o'r modd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau o dan Adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ffocws yr adolygiad hwn oedd addysg yn y cartref ac ysgolion annibynnol. Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r *'Llywodraeth geisio diweddaru'r sefyllfa reoliadol yn sylweddol ynghylch ysgolion annibynnol, a sicrhau bod athrawon wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.'*

20. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Comisiynydd ac wedi cydnabod '*pwysigrwydd diweddaru'r sefyllfa rheoleiddio mewn perthynas ag ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.*'

21. Nid ydym o'r farn y dylai'r gofyniad i berson gofrestru â'r Cyngor ddibynnu ar y math o ysgol dan sylw. Ar hyn o bryd, mae rhai aelodau o staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru â'r Cyngor o'u gwirfodd. Mae'r rhai sydd â statws athro cymwysedig yn cofrestru yn y categori athrawon ysgol. Mae'r rhai nad oes ganddynt statws athro cymwysedig (p'un a ydynt yn gweithio fel athro neu mewn rôl cymorth ai peidio) yn cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu. Nid yw hyn yn ateb delfrydol. Nid yw'r disgrifiad o 'athro ysgol' yn cynnwys y rhai sy'n addysgu mewn ysgolion annibynnol ond gan nad oes dewis amgen, mae hyn wedi bod ateb dros dro. Yn yr un modd, nid yw'n ddelfrydol bod y rhai sy'n gweithio fel athrawon yn cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu os nad oes ganddynt statws athro cymwysedig.

22. Rydym yn cynnig y dylid creu categori cofrestru newydd ar gyfer staff addysgu mewn ysgolion annibynnol, a hynny er mwyn cydnabod y tebygrwydd rhwng rolau a chyfrifoldebau staff addysgu mewn ysgolion annibynnol a staff addysgu mewn ysgolion a gynhelir. Cynigir na ddylid gwneud statws athro cymwysedig yn ofynnol gan ein bod yn cydnabod nad yw pob ysgol annibynnol yn ei gwneud yn ofynnol i'w staff addysgu feddu ar statws athro cymwysedig. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i staff addysgu fod yn gyfrifol am y 'gwaith penodedig' canlynol a nodir yn rheoliad 17 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015:

- cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau ar gyfer dysgwyr
- cyflwyno gwersi i ddysgwyr
- asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr
- adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.

23. Rydym yn disgwyl y bydd y categori hwn yn cynnwys y grwpiau canlynol o staff mewn ysgolion annibynnol, p'un a oes ganddynt statws athro cymwysedig a gydnabyddir yng Nghymru ai peidio:

- Staff addysgu llawn amser
- Staff addysgu rhan amser
- Y rhai sy'n gyfrifol am arwain y dysgu yn yr ysgol, er enghraifft pennaeth neu berchennog
- Staff cyflenwi – a drefnir drwy asiantaeth neu fel arall
- Staff addysgu peripatetig – er enghraifft athrawon cerdd a chwaraeon
- Staff addysgu ymgynghorol sy'n treulio cyfran o'u hamser yn addysgu, gan gynnwys cyswllt uniongyrchol heb oruchwyliaeth â disgyblion
- Tiwtoriaid yn y cartref a gyflogir gan ysgol annibynnol i addysgu dysgwyr na allant fynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Unrhyw aelodau eraill o staff a all fod yn cyflawni mwy nag un rôl mewn ysgol, yn ychwanegol at addysgu – er enghraifft rhiant tŷ, cynghorydd gyrfaoedd, tiwtoriaid.

24. Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor os ydynt yn helpu athrawon i wneud y canlynol:

- cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau ar gyfer dysgwyr
- cyflwyno gwersi i ddysgwyr (gan gynnwys drwy ddysgu o bell a thechnegau rhithwir)
- asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr
- adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.

25. Credwn fod y categori gweithwyr cymorth dysgu presennol yn ddigon eang i gynnwys staff â rolau a chyfrifoldebau tebyg yn y sector annibynnol gan gynnwys:

- Cynorthwyydd addysgu
- Cynorthwyydd dosbarth
- Cynorthwyydd cymorth dysgu
- Cynorthwyydd addysgu lefel uwch
- Cynorthwyydd anghenion arbennig/ychwanegol
- Cynorthwyydd cymorth dwyieithog
- Cynorthwyydd bugeiliol/lles
- Cynorthwyydd cymorth
- Tiwtoriaid (preswyl a dibreswyl)
- Cynorthwywyr blynyddoedd cynnar
- Hyfforddwyr
- Goruchwylydd cyflenwi
- Technegwyr
- Anogwyr dysgu.

26. Yn ogystal, mae grwpiau eraill o staff a all fod mewn cysylltiad rheolaidd, heb oruchwyliaeth, â dysgwyr a phobl ifanc. Gall hyn fod yn ystod diwrnodau'r wythnos, gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Gall y staff hyn gynnwys rhieni tŷ, metrons, cynorthwywyr preswyl, a staff sy'n trefnu gweithgareddau gyda'r hwyr ac ar benwythnosau y tu allan i astudiaethau arferol. Yn aml, maent yn rhoi cymorth bugeiliol a lles i ddysgwyr y tu allan i'r diwrnod ysgol ffurfiol.

27. Gallant hefyd fod yn byw yn agos at y dysgwyr, er enghraifft mewn ysgolion preswyl. Gall fod yn ofynnol i rai ohonynt gofrestru â rheoleiddiwr arall hefyd, er enghraifft mae gweithwyr gofal plant preswyl yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, bydd rhai aelodau o staff nad ydynt yn rhan o gwmpas unrhyw reoleiddiwr.

28. Hoffem wybod eich barn ynghylch a ddylid ei gwneud yn ofynnol i aelodau o staff sydd mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr a phobl ifanc ond nad ydynt yn perthyn i'r categorïau presennol na'r categorïau arfaethedig, gofrestru â'r Cyngor. Os felly, pa gategorïau o staff?

29. Y bwriad yw osgoi'r angen i unrhyw weithiwr proffesiynol gofrestru â dau gorff. Er enghraifft, ni fyddai angen i staff a gyflogir mewn ysgolion annibynnol fel nyrsys neu therapyddion galwedigaethol cofrestredig gofrestru â'r Cyngor oni bai eu bod yn cyflawni rôl addysgu neu gymorth dysgu. Os yw person yn cyflawni rôl o'r fath, byddai angen iddo gofrestru â'r Cyngor, p'un a yw wedi cofrestru â chorff proffesiynol arall yn barod ai peidio.

## Pam rydym am newid rhai o'r gofynion i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â'r Cyngor

30. Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') a Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 ('Gorchymyn 2016') yn amlinellu pryd y mae'n rhaid i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes angen i weithwyr ieuenctid na gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â'r Cyngor o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os nad ydynt yn gweithio am dâl (boed i 'gorff perthnasol' neu fel arall)
- Os nad ydynt yn gymwysedig, gan gynnwys y rhai sydd wrthi'n astudio am gymhwyster a nodir yng Ngorchymyn 2016
- Os ydynt yn gweithio am dâl mewn lleoliad nad yw'n 'gorff perthnasol', er enghraifft mewn sefydliad tai/iechyd meddwl/iechyd/ffydd.

31. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n cael eu talu i weithio fel gweithwyr cymorth ieuenctid neu weithwyr ieuenctid sydd wrthi'n gweithio gyda phobl ifanc nad oes angen iddynt gofrestru. Credwn fod hyn yn peri risg bosibl i bobl ifanc o safbwynt diogelu ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

32. Argymhellodd adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro *'Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru'*. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â *'mater diogelu sylfaenol sy'n codi mewn perthynas â gwasanaethau gwaith ieuenctid, gan sicrhau bod yr holl waith ieuenctid yng Nghymru yn digwydd mewn amgylcheddau diogel'* a bydd yn '*helpu i wella safonau yn y sector gwaith ieuenctid drwy sicrhau bod pob gweithiwr ieuenctid wedi'i gofrestru i weithio gyda phobl ifanc a'i fod yn gymwys i wneud hynny.'*

33. Mae safbwyntiau'r Bwrdd yn debyg i'r rhai a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad blaenorol cyn i'r trefniadau cofrestru gael eu cyflwyno. Credwyd y gall rheoleiddio helpu i wella ansawdd gwaith ieuenctid a helpu i godi ymwybyddiaeth o effaith ymyriadau gan weithwyr ieuenctid, yn ogystal â chreu cydraddoldeb ym mhob rhan o'r gweithlu addysg.

34. Credwn fod bylchau yn y trefniadau cofrestru a allai effeithio ar ddiogelwch a lles pobl ifanc. Rydym wedi nodi'r bylchau canlynol:

- Pobl mewn gwaith â thâl sy'n gweithio tuag at gymhwyster gwaith ieuenctid lefel 2 ac uwch
- Gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cyflogedig sy'n gweithio mewn lleoliadau nad ydynt yn gyrff perthnasol fel tai, sefydliadau ffydd, sefydliadau preifat, y rhai sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys fel yr heddlu, y gwasanaethau tân ac eraill. Yn anffodus, ni allwn gyfrifo faint o bobl a allai berthyn i'r grŵp hwn na'r ystod lawn o leoliadau y gallent fod yn gweithio ynddynt
- Staff cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid ac yn gweithio gyda phobl ifanc ond nad ydynt yn gymwysedig. Gallai hyn gynnwys pobl sydd wedi gweithio mewn lleoliad ers peth amser ac sydd wedi gweithio eu ffordd i fyny i'w swydd bresennol, ond nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau penodol ym maes gwaith ieuenctid
- Staff cyflogedig sy'n gweithio tuag at gymhwyster ond nad ydynt wedi ei gyflawni eto sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid fel gweithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth ieuenctid.
- Myfyrwyr nad ydynt mewn gwaith â thâl ond a fydd, fel rhan o'u hyfforddiant, yn darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid i bobl ifanc.

35. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn er mwyn ein helpu i ystyried sut i atgyfnerthu'r trefniadau cofrestru i ddiogelu pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yn well. Ar hyn o bryd, dim ond gweithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig sy'n meddu ar gymhwyster a restrir yn benodol yn Rhan 1 o Atodlen 1, neu Ran 1 o Atodlen 2 i Orchymyn 2016, a all gofrestru â'r Cyngor. Os bydd teitl cymhwyster yn newid neu os caiff cymhwyster newydd ei ddatblygu, gall hyn effeithio ar allu unigolion i gofrestru â'r Cyngor, gan nad yw'r union gymhwyster dan sylw yn cyd-fynd mwyach â'r rhai a restrir yn yr Atodlenni. Mae'r rhestr o gymwysterau yng Ngorchymyn 2016 yn dyddio'n gyflym.

36. Mae'n cymryd amser i ddiwygio gorchmynion ac mae'n annhebygol y gallai newidiadau gael eu gwneud yn ddigon cyflym i gyd-fynd â'r newidiadau i gymwysterau cymeradwy. Mae'r anhyblygrwydd hwn yn golygu y bydd effaith ar bobl sydd wedi ymgymryd â chymwysterau nad ydynt wedi cael eu hychwanegu at y rhestr. Yn yr un modd, os yw enw cymhwyster wedi newid ac, felly, ni chaiff ei gydnabod gan y Cyngor. Mae hyn yn golygu y gallai fod gweithwyr ieuenctid anghofrestredig yn gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru. Er y dylai'r cyflogwr fod wedi trefnu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gallai diogelu fod yn broblem o hyd. Er enghraifft, gallai person ddibynnu ar ei statws 'cyflogedig' i gael swydd arall yn hytrach na mynd drwy fyrddau addasrwydd i ymarfer ac efallai hefyd y bydd rhai materion na chânt eu cwmpasu gan wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallai hefyd effeithio ar allu staff cymwysedig i wneud cais am swyddi, gan na allant gofrestru.

37. Yn ogystal, gwyddom fod nifer bach o bobl wedi cofrestru yn y gorffennol â Thystysgrif Lefel 2, a oedd wedi'i chynnwys ar y rhestr o gymwysterau; fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu eu bod yn gymwys i fod yn weithwyr cymorth ieuenctid gan fod angen Dyfarniad Lefel 2 llawn arnynt. Mae angen diweddaru'r rhestr o gymwysterau er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn yn well.

38. Gwyddom hefyd fod y disgrifiad o weithiwr ieuenctid a gweithiwr cymorth ieuenctid yng Ngorchymyn 2016 yr un peth. Gall hyn achosi dryswch wrth gofrestru am fod y categori yn seiliedig ar lefel y cymhwyster yn hytrach na'r rôl. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud newidiadau deddfwriaethol yn y maes hwn yn y dyfodol, a hynny mewn ymateb i argymhelliad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro y dylid atgyfnerthu sail ddeddfwriaethol gwaith ieuenctid. Er y gallai rolau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gael eu hystyried ymhellach fel rhan o newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol, teimlwn y gallwn egluro'r gofynion o ran cymwysterau ar gyfer pob rôl yn unol â'r datganiad hwn:

*'Gellid disgwyl i weithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig feddu ar gymhwyster lefel 2 neu 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster cyfatebol hanesyddol y cytunwyd arno. Gellid disgwyl i weithiwr ieuenctid proffesiynol fod yn gymwysedig i lefel gradd 6 o leiaf, neu gymhwyster cyfatebol hanesyddol y cytunwyd arno, mewn cwrs sydd wedi cael ei gydnabod a'i gymeradwyo gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru neu gyrff perthnasol yn y DU ac Iwerddon.'*

39. Ein cynnig yw y dylid dileu'r rhestr o gymwysterau penodol o Orchymyn 2016, ei diweddaru a'i chadw mewn man arall lle y gall pawb ei gweld yn hawdd, a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr wedi'i diweddaru o'r cymwysterau presennol yn ein barn ni. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y cynnig i ddileu'r rhestr o gymwysterau o Orchymyn 2016, ac ar briodoldeb y rhestr ddiwygiedig yn Atodiad A.

40. Rydym hefyd yn ystyried gwaith yn y dyfodol ar gofrestr o wirfoddolwyr yn y sector gwaith ieuenctid, ac mae hyn yn cysylltu â'r adran ‘Gwirfoddolwyr’ isod. Gwyddom o ymgyngoriadau blaenorol a gwaith arall dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fod safbwyntiau ar yr angen i gofrestru gwirfoddolwyr yn y sector hwn yn amrywio. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwirfoddolwr gofrestru â chorff rheoleiddio.

41. Os ystyrir bod hyn yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, hoffem ddeall sut y dylem fynd i'r afael â hyn yn eich barn chi. Er enghraifft, a ddylid sefydlu cofrestr anffurfiol ar wahân o wirfoddolwyr, na chaiff ei rheoleiddio? Gallai hyn annog unigolion a/neu sefydliadau i ddynodi eu bod yn defnyddio Egwyddorion ac Ymarferion Gwaith Ieuenctid a sicrhau bod eu gwirfoddolwyr yn cael eu fetio'n briodol, er enghraifft gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn rhywbeth a allai gael ei ystyried ymhellach gan y Bwrdd Gweithredu Gwaith Ieuenctid sy'n cael ei recriwtio ar hyn o bryd.

## Pam rydym am newid y gofynion ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes addysg ôl-16 i gofrestru â'r Cyngor

42. Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 fel y'u diwygiwyd, yn nodi'r gofynion i ymarferwyr gofrestru yn y categori neu'r categorïau cofrestru sy'n gymwys i'w gwaith.

43. Ar hyn o bryd, mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y rheoliadau hyn:

- Personau sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu ar gyfer neu ar ran sefydliad addysg bellach, gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned
- Gweithwyr cymorth sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu ar gyfer neu ar ran sefydliad addysg bellach
- Personau sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu neu hyfforddiant sgiliau ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu seiliedig ar waith sydd wedi'i gontractio i Lywodraeth Cymru (mae hyn hefyd yn gymwys i bob is-gontractwr ac aelod o gonsortiwm sy'n cyflwyno hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru).

44. Fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth bresennol, argymhellwn y dylid mynd i'r afael â'r grwpiau canlynol nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor:

- Personau sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar ran awdurdod lleol
- Ymarferwyr mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol (a elwir yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018)
- Arweinwyr sector nad ydynt yn addysgu'n uniongyrchol
- Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith na chânt eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth
- Personau sydd ond yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn sefydliad addysg bellach.

45. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i ymarferwyr sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer neu ar ran awdurdod lleol gofrestru. Nid oes unrhyw wahaniaeth ymarferol rhwng y mathau o waith a wneir gan yr ymarferwyr hyn. P'un a yw person yn cyflwyno darpariaeth ddysgu ar ran sefydliad addysg bellach, ar ran awdurdod lleol neu drwy sefydliad addysg bellach arbenigol annibynnol, mae'r math o ryngweithio â phobl a allai fod yn agored i niwed yn weddol debyg.

46. Dyna pam rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr dysgu oedolion yn y gymuned, a gyflogir drwy awdurdodau lleol, gofrestru â'r Cyngor.

47. Mae'n ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir gofrestru â'r Cyngor hyd yn oed os nad oes ganddynt unrhyw ymrwymiadau addysgu yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes angen i arweinwyr ym maes addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith nad ydynt yn darparu'r gwasanaethau perthnasol a nodir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pob sector, gofrestru.

48. Credwn y dylai fod gennym drefniadau cyson ar gyfer ein holl ddarparwyr ac argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i bob arweinydd gofrestru â'r Cyngor p'un a yw'n addysgu'n uniongyrchol ai peidio.

49. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys esemptiad sy'n golygu nad oes rhaid i staff sy'n cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach gofrestru. Fodd bynnag, ers 2016, caiff yr holl staff addysgu sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach eu cyflogi o dan gontract cyffredin. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor fel staff addysgu addysg bellach. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff, hyd yn oed y rhai sydd ond yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch, gofrestru. Felly, argymhellwn y dylid dileu'r esemptiad o'r ddeddfwriaeth.

50. Ar hyn o bryd, ni all ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith na chânt eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth, gofrestru â'r Cyngor. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd ymarferydd dysgu seiliedig ar waith a gyflogir drwy ryw fath o raglen a ariennir yn gyhoeddus, er enghraifft gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, wedi cofrestru. O ganlyniad, ni all yr ymarferwyr hyn achub ar y manteision sy'n gysylltiedig â chofrestru â chorff proffesiynol, ac nid oes gan gyflogwyr a dysgwyr y sicrwydd o safbwynt diogelu y gall y Cyngor ei gynnig.

51. Argymhellwn y dylai pob ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy'n cyflwyno darpariaeth a ariennir gan gorff cyhoeddus gofrestru â'r Cyngor.

52. Ein bwriad yw ymestyn y gofynion i gofrestru â'r Cyngor i gynnwys ymarferwyr mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, a elwir hefyd yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018. Byddai hyn ond yn gymwys i sefydliadau yng Nghymru.

53. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd y fframwaith hwn yn disodli deddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r broses o asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

54. Ymhlith pethau eraill, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu, cynnal a chyhoeddi rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr (y rhestr). Dim ond ar ôl cael cais gan berchennog sefydliad y caiff Gweinidogion Cymru gynnwys y sefydliad hwnnw yn y rhestr.

55. Mae sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn darparu addysg neu hyfforddiant i bersonau dros oedran ysgol gorfodol ac mae wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu'r cyfryw addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau addysg bellach, ysgolion annibynnol (sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr ar gyfer Cymru), sefydliadau addysgol annibynnol (sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr ar gyfer Lloegr) nac Academïau 16-19 yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.

56. Mae Adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y canlynol:

- Cynnwys y rhestr gyhoeddedig
- Gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad yn y rhestr
- Gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy tra bo’r sefydliad wedi ei restru (gan gynnwys gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o’r fath)
- Dileu’r sefydliad o’r rhestr
- Yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau
  (i) I wrthod rhestru sefydliad
  (ii) I ddileu sefydliad o’r rhestr
  (iii) I beidio â chymeradwyo trefniadau yn y sefydliad neu i beidio â chymeradwyo newid iddynt.

Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 wedi cael eu gwneud o dan yr adran hon.

57. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i staff addysgu na staff cymorth addysgu mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gofrestru â'r Cyngor. Yn yr adroddiad ar Ysgolion Annibynnol, ni chyfeiriodd y Comisiynydd Plant yn benodol at sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol wrth argymell y dylid ehangu cwmpas y Cyngor. Fodd bynnag, credwn y dylai fod yn ofynnol i'r aelodau o staff hyn ym mhob sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru gofrestru, p'un a yw'r sefydliad wedi'i gynnwys yn y rhestr ai peidio. Yn yr un modd â'r achos a wnaed yn gynharach yn y ddogfen hon, credwn y dylai fod yn ofynnol i bob person sy'n gweithio yn y sector ôl-16 gofrestru, ni waeth pa fath o sefydliad sydd dan sylw, er mwyn dod â rhywfaint o gydraddoldeb i'r proffesiynau.

## Gwirfoddolwyr

58. Mae gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth gwerthfawr a hollbwysig sy'n cefnogi ein dysgwyr a'n pobl ifanc. Hebddynt, ni fyddai llawer o wasanaethau'n gallu gweithredu. Rydym am sicrhau nad ydym yn amharu ar hyn nac yn gwneud unrhyw beth i atal y gwaith hanfodol a phwysig hwn.

59. Ni chredwn ei bod yn rhesymol nac yn briodol i'w gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr gofrestru â'r Cyngor. Pe byddem yn ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr yn y sector addysg gofrestru â'r Cyngor, byddem yn eu rhoi mewn sefyllfa wahanol i wirfoddolwyr ym mhob sector arall. Byddai hyn yn ei gwneud yn anodd denu cymorth byrdymor ac anffurfiol.

60. Mae gwaith mapio diweddar, er enghraifft yn y sector gwaith ieuenctid, wedi dangos bod lefelau uchel o wirfoddolwyr yn y sector. Gall gwirfoddolwyr fod yn helpu'n achlysurol neu'n ad hoc neu am ychydig oriau bob wythnos/mis. Gallant hefyd fod dan 18 oed. Mae gennym bryderon ynghylch pa mor gymesur a rhesymol yw ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr gofrestru.

61. Un o'r rhesymau dros gyflwyno gofynion cofrestru yw sicrhau bod safonau proffesiynoldeb yn cael eu cyrraedd. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr gyrraedd y fath safonau proffesiynol gan nad oes yr un lefel o ofynion o ran hyfforddiant a chymwysterau yn gymwys i'w rôl. Hefyd, mae presenoldeb yn rhywbeth dewisol yn hytrach na rhywbeth sy'n orfodol o dan gontractau cyflogaeth.

62. Fel rhan o drefniadau cofrestru rheoleiddiedig, gellir rhoi amrywiaeth o gosbau i bersonau cofrestredig, gan gynnwys eu dileu o'r gofrestr. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal gwirfoddolwyr rhag gwneud gwaith gwirfoddol mewn sectorau eraill. Mae llawer o sefydliadau'n rheoli ac yn goruchwylio'r rhyngweithio rhwng y gwirfoddolwyr a'r dysgwyr a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yn ofalus. Yn ogystal, mae ffyrdd swyddogol o fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol gan wirfoddolwyr, er enghraifft prosesau fetio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu achosion troseddol.

## Y materion eraill y mae angen inni eu hystyried

63. Mae'n rhaid i bawb sy'n cofrestru â'r Cyngor dalu ffi flynyddol. Mae'r rheoliadau yn pennu mai'r ffi yw £46 y pen. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal ar gyfer y ffi i'r rhai sy'n cofrestru drwy daliad yn uniongyrchol i'r Cyngor. Y ffi sy'n daladwy gan y sawl sy'n cofrestru yw £45 neu £15 gan ddibynnu ar y categori cofrestru. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffioedd presennol ar wefan y Cyngor.

64. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ymgynghori ar swm y ffioedd i'w talu. Pan fyddwn wedi datblygu ein syniadau ymhellach ac wedi cytuno ar y newidiadau i'r gofynion cofrestru, byddwn yn ceisio eich barn ar y ffi briodol.

65. Rydym yn ymwybodol o'r angen i ystyried y goblygiadau gweithredol i'r Cyngor os daw miloedd o bobl yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefniadau cofrestru a rheoleiddio. Yn y gorffennol, mae grwpiau newydd wedi cael eu hychwanegu'n raddol er mwyn sicrhau y cânt eu cofrestru mewn pryd i'w galluogi i gyflawni eu rolau.

## Beth fydd yn wahanol os caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith?

66. Os derbynnir y cynigion, bydd y trefniadau i ddiogelu ein dysgwyr a'n pobl ifanc yn cael eu hatgyfnerthu, a bydd cydraddoldeb o ran proffesiynoldeb.

67. Yn ychwanegol at y grwpiau presennol o gofrestreion, byddai'n ofynnol i'r categorïau canlynol gofrestru â'r Cyngor:

- Staff addysgu a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol
- Gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cyflogedig nad ydynt yn gymwysedig neu sy'n gweithio mewn lleoliad nad yw'n ‘gorff perthnasol’
- Y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, a elwir hefyd yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- Ymarferwyr sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer neu ar ran awdurdod lleol
- Y rhai sydd ond yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach
- Darparwyr dysgu seiliedig ar waith a ariennir yn gyhoeddus ond na chânt eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth
- Penaethiaid ac uwch-arweinwyr (gan gynnwys Prif Swyddogion Gweithredol) mewn rolau nad ydynt yn cynnwys addysgu mewn sefydliadau ôl-16 ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

## Rhannwch eich barn â ni

68. Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y ddogfen hon. Mae croeso ichi wneud unrhyw sylw ag y dymunwch ar y ddogfen hon. Fodd bynnag, byddem yn croesawu'n benodol sylwadau ar un neu fwy o'r cwestiynau yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Os hoffech ychwanegu mwy, defnyddiwch y lle sydd ar gael yn y ffurflen i roi mwy o wybodaeth i ni.